**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/02208/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

13 Ebrill 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch y canllawiau presennol ar ymweliadau mamolaeth: Deiseb P-05-1035 Caniatáu i bartneriaid geni fod yn bresennol mewn sganiau, dechrau'r esgor, yr enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth.

Mae diogelwch a llesiant pob mam a baban, yn ogystal â'r staff sy'n eu cefnogi, wrth wraidd y canllawiau ar alluogi menywod i gael eu hebrwng gan eu partner neu berson enwebedig wrth gael mynediad at wasanaethau mamolaeth yn ystod y cyfnod presennol.

Ar ôl gwrando ar fenywod a theuluoedd ac ymgynghori â bydwragedd, meddygon a sonograffwyr, rydym wedi gwneud diwygiadau i'r canllawiau ymweld ar gyfer gwasanaethau mamolaeth. Gellir dod o hyd i'r canllawiau hyn drwy ddilyn y ddolen hon:
https://llyw.cymru/ymweld-ag-ysbytai-yn-ystod-y-coronafeirws-canllawiau?

Bydd ymweld â gwasanaethau mamolaeth bellach yn seiliedig ar ddull asesu risg gan fyrddau iechyd unigol. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth cyfraddau trosglwyddo lleol, ffactorau amgylcheddol megis maint ystafelloedd, y gallu i gadw pellter cymdeithasol ac atal haint wrth alluogi partneriaid i fod gyda menywod beichiog a mamau newydd mewn ffordd ddiogel.

Mae'r dull hwn yn gymwys nid yn unig mewn clinigau (ar gyfer mynychu sganiau) ac mewn mannau aros ond hefyd ar wardiau mamolaeth lle gall menywod gael cymorth ar ddechrau'r cyfnod esgor. Darperir y cymorth cynnar hwn yn aml mewn ardaloedd wardiau a rennir lle mae angen ystyried pellter rhwng gwelyau a llif drwy wardiau. A ninnau yn lefel rhybudd 4 o hyd, ni fyddem yn disgwyl llacio'r cyfyngiadau ymweld megis caniatáu i bartneriaid fod yn bresennol cyn i'r fenyw fod yn y cyfnod esgor gweithredol. Ond wrth i lefelau haint ostwng a phan gyhoeddir lefel rhybudd is byddem yn disgwyl i gyfyngiadau gael eu llacio. Byddai hyn yn cael ei benderfynu'n lleol a byddai risg yn cael ei hasesu.

Bydd unrhyw newidiadau i gyfyngiadau ymweld lleol yn cael eu hadrodd i'r Prif Swyddog Nyrsio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services